YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 2] CHWEFROR, 1920. [PRIS 3c.

CYNHWYSIAD.

AR ADEN FFYDD.
YNYS Y CREGYN.
BLAENCANAID, &c.
COLOFN "MAES LLAFUR."
TRI YSGOLFEISTR ENWOG O'R UN ENW.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MÂNION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goheb-iaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

"THE TRAINING OF MIND AND WILL"

By W. Tudor Jones, M.A., Ph.D.

CONTENTS:

Foreword by Dr. Alex Hill.
Chapter I. Introduction.
II. Need of Ability.
III. Knowing our own Mind.
IV. Observation, Attention, Concentration, Will-power, Memory.
V. The Three Levels of Mind—Perception, Association, and Reflection.
VI. The Four Sides of Life and their Cultivation—(*a*) The Civic Side; (*b*) The Vocational Side; (*c*) The Cultural Side; (*d*) The Religious Side.

Price, 2/6. - - - Postage, 3d.

Obtainable from—

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. CHWEFROR, 1920. [CYF. XX. RHIF 2.

AR ADEN FFYDD.

MAE'R GWYNT YN OER.

MAE'R deifwynt yn oer ac yn flin,
A'r gaeaf yn hir yn y Cwm ;
Mae mwynder yn marw'n yr hin,
A'r derw'n och'neidio yn drwm :
Ewinrew dry fywyd i'w loches yn ol,
Ac yn ei ddifrodau
Mae ysbryd y blodau,
Yn holi am haul o dan farrug y ddol.

Y dail yn eu beddau a roed,
A'r gwynt o'u cynhebrwng a ddaw
I frigau amddifad y coed,
A'r allwedd yn oer yn ei law ;
Ysbeilia delynau, ac ymaith y ffy,
A llawer aderyn,
Ar ol ei offeryn,
A glywaf yn wylo ar drothwy fy nhŷ.

Cloedig yw mynydd a rhos,
Gan lymed ac oered yr hin ;
A thyfu mae oriau y nos,
Wrth deimlo yr ias ar eu min ;
Yr haul yn y bore a gyfyd yn glaf,
A gwel yr afonydd
Yn aros yn llonydd,
Gan ddisgwyl am gynnes belydryn o haf.

Mor felus yw aelwyd a thân,
Tra'r llwydrew yn wyn ar y tô ;
A'r deifwynt yn rhuo ei gân
Ar ddiogel hesbennau y clo ;
Ond allan mae rhywun heb gysgod na thre',
Mewn oerfel yn rhynu,
A'i galon yn crynu,
Mi gofiaf am dano, fy mrawd yw efe.—DYFED.

YNYS Y CREGYN.

"Y MAE natur bob amser yn newydd; ac y mae rhywbeth yn *ffres* ymhob dyn sy'n meddwl a llefaru'n ei ddull naturiol ei hun,' meddai Lewis Edwards gynt. Amheued a amheuo. Câr llawer ddwndwr y dre a 'mynd' y ddinas, ond rhoer i mi encil y mynydd ac unigedd y môr. Caiff a fynno y castell a'r llys, y modur a'r trên, ond rhowch i mi yr eithin a'r grug, y brwyn a'r nant a'r bâd ar y dón. Y mae aruthredd gwyllt y mynydd a thonnau cynddeiriog y môr yn mynd a'm henaid i.

* * * * * *

Yn llên Iwerddon y mae sôn am Dir na-N og—ynys yr Ieuainc, rhyw ynys hud ellid tybio lle ni ddaw pwys a gwres y dydd na gorthrwm a chymylau bywyd i aflonyddu arnom, ac y mae pob enaid yn hiraethu am yr ynys honno.

A minnau ar fy ngwyliau prin un hâf, euthum i chwilio am Dir na-N og y bardd, a chefais hi. Heb fod nepell o Lanbedr, Meirionydd, ceir ynysig. Y mae'n llawn cregyn o bob lliw a llun dan haul, miloedd ohonynt, ïe miliynau ellid tybio, a gelwir yr ynysig yn Shell Island—Ynys y Cregyn. Bum innau arni ar nawn o hâf yn cregyna.

Yn y pellder gwelwn ddau gadernid, y môr a'r mynydd, Iwerydd ac Eryri fel cadernid Duw, a Chastell Harlech fel cadernid dyn. Rhuthrai tonnau Iwerydd ar y lán a safai'r Eryri gyda'r Wyddfa i herio'r gwynt a stormydd amser. Mor arddechog oedd *oratorio* Iwerydd,—

> "Swn y tonnau'n curo'r glannau,
> Tonnau'r nos ar draeth y dydd."

Y mae'r hen Eryri'n dragwyddol fel Duw Ei hun. Er ei bod wedi'i seilio ar fynwes Cymru, y mae'i phen a chapan o niwl am dano bob amser yn awgrymu rhyw ddirgelwch a chadernid Duw.

Gyda chamre petrus y dringais i Gastell Harlech. Chwiliais ei guddfannau, a phan gwynai'r gwynt trwy'i hen rodfeydd, dychmygwn glywed griddfan ac ochenaid y carcharorion gynt. Ar ei lawnt werdd gofynais, pa sawl twrneiment ymladdwyd yma? Ar yr wylfa tybiwn weld Glyndŵr a'i gleddyf hir yn amddiffyn ei wlad, a chyda'r gwynt doi llais fel llais goreu Cymru heddyw gan ddywedyd :—

> "Dyred dangos dy darian."

Erbyn heddyw ni cheir yno ond pedair gwal lwyd a chadernid dyn yn falurion. Oedais yn hir yno, ac yr oedd ysbrydion fy nghenedl

gynt yn fy swyno fel cân adar Rhiannon yn y dyddiau cynnar, a chan felysed y gân ni fedrwn droi ymaith, ondyr oedd Tir na-N og yn galw draw.

Euthum. Yr oedd badwr yno'n disgwyl ar y lán. Mor dawel yr afon, ac nid oedd dim i dorri ar hud y fordaith honno. Nid oedd eisiau rhwyf. Yr oedd y bâd yn *drifto* gyda'r llanw, a *driftai* meddwl innau. Synfyfyriwn ar fywyd. Caled yw rhwyfo'n erbyn y llanw, ac y mae'n haws *drifto*. Y mae'r awel o'ch tu. Y mae'r dón gennych. Y mae'r lloer yn eich tynnu. Ar yr afon gofynnwn innau i mi fy hun, ai *drifto* y mae dynoliaeth heddyw? a llanw'r gorffennol yn ein cludo i dir Ieuenctid. Ydyw Cymru heddyw ym myd crefydd yn rhwyfo'i chwch ei hun? Ai *drifto* y mae ac awel o Geneva ac o'r Almaen neu o Rufain o'i thu. Ai bywyd esmwyth didòn a gar heb fod angen meddwl trosti 'i hun? Ai *sing-song* ddaw o'i phwlpudau i dawelu ac i gysgu ymchwil ac nid cenadwri y gwir broffwyd? Beth bynnag fyddo'r ateb, cofier mai'r rhwyfwr—y personol sydd eisiau, ac ymchwil personol, cymundeb dyn a'i Dduw ydyw'r wreichionen fyw ym myd yr enaid.

Ond daeth swn y rhwyf ar y dón i dorri ar fy myfyrdod, ac Ynys y Cregyn o'm blaen. Miloedd o gregyn, ïe miliynau, o bob lliw. Nid oedd yr enfys ynddi o gwbl. Yr oeddynt hefyd o bob maint a llun, rhai cyn lleied a chriafolen neu bisyn tair, ac ereill agos cymaint a threisiwn fy nghartref gynt. Dyma ddarlun y bardd o'r gragen:—

> "Annedd hardd a drefnodd Ior—i'w rai bach
> Ym mro bell y dyfnfor;
> Yn ei thrwsiad a'i thrysor
> Gwelir mwyn firaglau'r mor."

O grwydro draws yr ynysig, deuthum i encilfan, a chanfum rywun yn eistedd yno a'r dón wrth ei draed. Yr oeddwn wedi anghofio pawb a phobun. Tybiais mai morforwyn neu dduwies ydoedd, a hwyrach mewn rhyw ystyr fod y gwir gennyf, ond âf eto ryw ddydd yno—

> "Pan dorro y niwl dros y cefnfor,
> Pan orffwys y dón ar y lli,
> Fydd yno un dduwies yn aros
> Adnebydd fyfi?"

Ond rhaid gadael y forforwyn a'r breuddwydio a throi i gregyna, a gweld yn y gragen frau ond prydferth, difywyd ond tlws, ddarlun o grefydd Cymru ar lawer adeg ac mewn llawer man. Dywed awdur drama Maesymeillion, "Medr seiat a chwrdd gweddi fod yn seremonïau mor wâg a llosgi canhwyllau." Teimlais rym a thegwch y cyhuddiad wrth ofyn i mi fy hun, ai ynys y cregyn yw crefydd Cymru? Yr oedd yno fil a mwy o gregyn gylch fy nhraed, ond *waste* y dyfnder oeddent, *plisg* a'r bywyd wedi mynd. Teflais gip-

drem frysiog tros hanes crefydd a chanfûm lawer seremoni brydferth, ond tybed ai oer a difywyd ydynt? Rhois y gragen wrth fy nghlust a chlywn ryw adlais ynddi'n dywedyd "I'r Dyfnder."

Mor brydferth oedd y miloedd cregyn ar yr ynys, ac mor wâg; mor brydferth hefyd ydyw'r miloedd o eglwysi a chapelau sydd yn britho Cymru, a chlywaf ryw ysbryd yn sibrwd wrthyf, "Gorffen y gymhariaeth—*ac mor wâg.*

Dychmygwn y teidiau gynt ynghanol eu seremonïau, a gwelwn hefyd y Cymry heddyw'n gaeth i seremoni dlos—a difywyd? i'r cregyn a'r bywyd wedi mynd, ond clyw y dón yn adlais cân y bardd,

"Ni welais Grist na dwylo Duw
O flaen addolwyr garw'r tir;
Sibrydai'r afon, ysbryd yw,
Ysbryd yw Ner sibrydwn i."

Trois innau gyda'r gân o Ynys y Cregyn, ond gobeithio nid i ynys fwy a chregyn gwacach.

T. O. W.

ER COF SERCHUS AM
MRS. A. DAVIES, FOELALLT, CILIAU AERON.

Distawed y delyn,
Mae bwlch yn y côr,
Un anwyl aeth adre'
Wrth alwad yr Iôr;
Bu'n c'weirio ei nodau
Wrth seiniau y Ne'—
Y Tad a'i cymerodd
Yn anwyl i dre'.

Mae hiraeth yn llethu'r
Anwyliaid o hyd,
Duw nertho'r calonau
Sy'n diodde' yn fud;
I'r cartref bach siriol
Daeth ffarwel a loes,
Y Duw rydd ei gymorth
I gynal y groes.

Ei ofal ga'r bychan
Heb fam yn ei fyd,
Angylion a wylio
Yn dyner ei gryd;
Ei eiddo fo bywyd
Mwyn, prydferth, a glân,
Yr un a'r esiampl
A'r Nef yn ei gân.

Yn wâg mae yr aelwyd
A lonnodd drwy 'i hoes,
A gwâg yr addoliad
Lle 'i goreu a rhoes.
Os trist yr ymadael
Dan alwad o'r Ne',
Bydd melys cyfarfod
Anwyliaid yn nhre'.

Dihewyd. N. EVANS.

BLAENCANAID, A'R FFORDD TUAG YNO.

[PARHAD.]

Pasiwyd lluaws o ddeddfau o bryd i bryd i geisio diddymu Anghydffurfiaeth, megis *Deddf Unffurfiaeth* 1662, yr hon fu'n achos i droi rhwng dwy a thair mil o offeiriaid allan o'u bywiolaethau mewn ufudd-dod i lais cydwybod. Mae'n syndod meddwl nad oedd cymaint ag un o'r ddwy fil yn byw yn Merthyr, y Faenor, Penderyn, Ystradfellte, Ystradyfodwg, Llanwyno, na Llanfabon.

Pasiwyd y *Conventicle Act* 1664 i rwystro pob un dros 16eg oed i fynychu unrhyw le addoliad ond Eglwys Loegr; pasiwyd y *Five Mile Act* ar adeg y Pla Mawr yn Llundain, pan oedd naw neu ddeng mil yn marw mewn wythnos. Parodd hyn i'r mwyafrif o offeiriaid ffoi, a hynny, sylwer, pan oedd ar y bobl fwyaf o'u hangen, a phan oeddynt fwyaf parod i dderbyn eu help. Er hynny, darfu i rai o'r gweinidogion oedd wedi eu bwrw allan, o dosturi, anturio i'r maes a gwneud eu goreu. Parodd hynny anfoddlonrwydd mawr yn mhlith y rhai mewn awdurdod. Yr oedd y rhai hynny megis wedi ynfydu. Crogwyd rhai, llosgwyd eraill, a charcharwyd miloedd; ond gan nad beth wnelid, cynyddu wnai'r drwg *tybiedig*, gan brofi gwirionedd yr hen ddywediad, 'Gwaed y saint yw had yr Eglwys.'

Tua'r adeg hon y daeth yr enwog Vavasor Powel* am dro i Ferthyr, a darfu iddo bregethu o fynwent y plwyf i ryw fil o bobl. Ei destun oedd, 'Bendigedig yw y gwr a ymddiriedo yn yr Arglwydd, ac y byddo'r Arglwydd yn hyder iddo, canys efe a fydd megis pren wedi ei blannu wrth y dyfroedd, ac a estyn ei wraidd wrth yr afon, ac ni wyr wrth ddyfod gwres, ei ddeilen a fydd îr, ac ar flwyddyn sych ni ofala, ac ni phaid a ffrwytho." —Jeremiah xvii: 7, 8. Dyna ei bregeth olaf. Offeiriad y plwyf ar y pryd oedd George Jones. Pan glywodd hwnnw fod Vavasor Powel wedi bod *yn cuog* o bregethu i'r bobl, ac yntau heb feddu ar yr awdurdod priodol, aeth i Gaerdydd ar frys mawr, i roi ei achwyniad o flaen yr awdurdodau, gyda'r canlyniad i un Major Carne a nifer o filwyr ddyfod i fyny i Ferthyr, a chymeryd Mr. Powel yn garcharor i Gaerdydd. Ar ol ei ddwyn gerbron y llys yno, aethpwyd ag ef i fyny i Lundain Mai 16, 1669. Gosodwyd ef i sefyll ei brawf yno ar yr 22ain o'r un mis, ac er na phrofwyd yr un o'r cyhuddiadau ddygwyd yn ei erbyn, eto fe'i taflwyd ef i garchar y *Fleet* er mwyn boddloni ei elynion, ac yno y bu 'nes i'r Arglwydd ei ryddhau trwy Angau am bedwar o'r gloch Hydref 27, 1670.' Yn ystod ei yrfa gyhoeddus bu Vavasor Powel mewn tri-ar-ddeg o garchardai, a threuliodd yr unflynedd-ar-ddeg olaf o'i fywyd bron yn ddi-baid yn y carchar.

Pan drodd y Senedd yn bleidiol i ryddid crefyddol, ni bu raid i Ymneillduwyr Merthyr ddiogelu eu hunain bellach yn Blaencanaid. Daethant i gynnal eu cyfarfodydd yn gyhoeddus heb ofn cael eu haflonyddu, yn enwedig ar ol 1646, pan y gorchfygodd milwyr y Senedd blaid y brenin yn Nghymru. Aethant ar ol hynny, rai o honynt, i gynnal eu cyfarfodydd yn Eglwys y Plwyf, am yr hyn y cwynai'r Parch. Nathaniel Jones yn dost: 'Y

*Gweler Bywgraffiad o honno yn YR YMOFYNYDD, 1895, tud. 178; *Seren Gomer*, 1852, tud. 299.

maent,' meddai, 'nid yn unig wedi dileu a bwrw i lawr bob math o ddegwm, ond y maent hefyd yn dinystrio Eglwys y Plwyf. Ni oddefant i neb bregethu yno ond un o'u sect eu hunain. Mae ganddynt yno dri o bregethwyr lleyg. Mae y brodyr hyn yn cyfarfod bob Sabbath yn yr Eglwys, ac yn fynych ar ddyddiau yr wythnos, lle maent yn ymgynghori, ymddadleu, ac yn trefnu eu materion mewn modd anghyfreithlon ac annuwiol. Ni oddefant i weinidog y Plwyf bregethu yn yr Eglwys, oblegid ni thalant ddegwm iddo Maent weithiau wedi canu y gloch er aflonyddu arno, brydiau eraill maent wedi ei dynnu allan o'r pwlpud, gan rwygo ei ddillad ac arfer creulonder tuag ato. Ar amserau eraill gosodent rywun arall i bregethu dan yr ywen ar y fynwent, pan fyddo'r gweinidog yn y pwlpud yn yr Eglwys. Ni fyn y bobl hyn na gweddiau na sacramentau, yn enwedig gweddiau sanctaidd yr Eglwys a'r sacrament, o ddwylaw y gweinidog. Mae yn wir fod Mr. Jenkin Jones yn torri bara yn fisol yma, yr hwn yn nghyd a'r gwin, a rennir trwy y gynulleidfa. Yr wyf yn sicr fod yma bum mil o wyr a gwragedd yn y plwyf nad ydynt wedi derbyn Swper yr Arglwydd y deng mlynedd diweddaf hyn. Mae Mr. Jenkin Jones neu Henry Williams yn sicr o gymryd meddiant o'r pwlpud bob Sul Pasg ac ar amserau eraill. Ni oddefir i'r bobl dderbyn y sacrament gan weinidog y plwyf, na dwyn eu plant yno i'w bedyddio.'

Wedi adferiad y brenin Charles II. i'r orsedd, cafodd Nathaniel Jones, a chynifer o ganlynwyr ag oedd ganddo, eu hadferu i'r Eglwys, a bu raid i'r Ymneillduwyr ddychwelyd i Flaencanaid, neu rywle arall, i gynnal eu cyfarfodydd. Gwelsom mai Jenkin Jones a Henry Williams a rhyw dri pregethwr cynorthwyol oedd yn gweinidogaethu yn amser y rhyddid. Dywedir fod gwrthwynebiad i Henry Williams am ddau reswm: (1) yr oedd wedi bod yn y fyddin—byddin y Senedd; (2) Ni fedrai yr un iaith ond y Gymraeg. Ond sylwer ei fod yn medru digon o Efengyl i fod yn weinidog i'r gynulleidfa luosog hon. Henry Williams oedd y gweinidog yn 1669. Barnai y Dr. Thomas Rees mai yr un gwr oedd hwn a'r Henry Williams a drowyd allan gan Ddeddf Unffurfiaeth o Eglwys Llantrisant. Ni wyddis pa bryd y bu farw. Bu yr Eglwys hon yn hir yn cael ei chyfrif fel cangen o Eglwys Llanigon—canghenau o'r hon oedd yn wasgaredig drwy holl Sir Frycheiniog.

Mr. Henry Maurice oedd gweinidog yr Eglwys fawr wasgaredig hon o 1672 hyd 1682, ond yr oedd ganddo lawer o gynorthwywyr. Mae'n debyg ei fod yn cyflawni gwaith meddyg hefyd. Desgrifir ef fel gwr duwiol a llafurfawr. Ni wyddis pwy fu'n gweinidogaethu yno o'r amser y bu Mr. Maurice farw, 1682, hyd amser sefydliad Roger Williams, 1698. Enwir un Samuel Davies fel un gadd ei apwyntio yn 1688, ond ni wyddis dim am dano, ac yn 'Freedom after Ejection' (Alex. Gordon, 1917) cofnodir marwolaeth un David Richards, 1690, fel 'pastor of the Church at Merthyr.'

Adroddir rhai hanesion cynhyrfus mewn cysylltiad a'r achos yn y lle hwn. Fe gofir fod yr erledigaeth yn chwerw'r pryd hwnnw, a'u bod, er mwyn diogelwch, dan orfod cadw gwylwyr. Un tro, pan oedd y gwasanaeth yn mynd yn mlaen, rhoddwyd rhybudd fod mintai o feirchfilwyr yn nesu y ffordd honno. Mewn ychydig funydau dyna'r swyddog oedd mewn awdurdod yn nesu at y ty. Cymro ydoedd o'r enw Cyrnel Morgan. Clustfeiniodd am ychydig amser, clywodd y saint yn gweddio, a dychwelodd at ei filwyr, a dywedodd wrthynt, 'Nid oes dim allan o le yma—marchogwn ymaith.' Adroddir hefyd iddo ddywedyd wrth gyfaill, 'Caled iawn fuasai'r galon a allai wneud dim niwed i'r bobl hyn druain.'

Dro arall pan oeddynt yn addoli,

ymwelwyd a hwy yn annisgwyliadwy gan hen bregethwr adnabyddus iddynt wrth yr enw Hen Saphen—neu Sephaniah. Yr oedd yn byw yn Mhenbont-ar-Ogwr, ac elai i bregethu unwaith y mis i Hengoed—capel y Bedyddwyr. Un noson, cyrhaeddodd Merthyr yn rhy hwyr i fynd yn mhellach. Gwyddai fod y frawdoliaeth yn cynnal gwasanaeth yn Mlaencanaid bron bob nos, a phenderfynodd fynd yno. Aeth at y drws. Merch oedd yn gwylio y noson honno. Hi gauodd y drws ar unwaith, a rhybuddiodd yr addolwyr fod y gelyn yno. Meddiannwyd y ty a distawrwydd y bedd, ac yna clywyd llais yn dywedyd, 'Nid oes ofn mewn cariad, y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn.' Adnabyddwyd y llais, a mawr oedd y llawenydd pan ddeallasant mai brawd oedd yno ac nid gelyn.

Dyna ni wedi dilyn hanes Eglwys Blaencanaid hyd 1689, pan y symudwyd i Cwm y Glo. Mae haneswyr yn ddieithriad bron wedi llwyr anwybyddu Blaencanaid drwy gysylltu ei hanes a Chwm y Glo. Nid yw hanes y lle hwnnw ddim yn dechreu hyd 1689, a thriugain mlynedd yw ei hanes ar ol hynny, ond y mae'n hanes dyddorol a chyffrous.

Blaencanaid, fodd bynag, yw pennod fy llith, ac nid iawn fydd gadael yr hen gapel yn ddisylw, canys yr oedd yma gapel—hen gapel nad oes genyf yr un dychymyg pa bryd y codwyd ef. Mae peth yn weddill o honno hyd heddyw, er mai yn 1840 y codwyd yr adeilad presennol. Yn ddiweddar y darganfyddwyd yno ystafell dan-ddaearol, yr ymguddfan lle'r ymgilient pan fyddai'r perygl yn fawr. Mesura 10½ troedfedd wrth 8½, a 6 o uchder. Ystafell fechan oedd. Nid llawer allai fynd iddi. Yr oedd y fynedfa o'r tu allan yn guddiedig, a'r tu arall i'r ystafell yr oedd lle i ddianc. Nid oedd ynddi yr un ffenestr i'w goleuo na'r un lowset i'w hawyro. Nodir allan y fan lle tybir y gosodid y ganwyll.

Terfynwn gyda defyniad allan o'r *Beirniad*, 1863 :—

'Yr Eglwys fu yn crwydro o dy i dy ar y bryniau, ac yn y cymoedd rhwng Craig y Llyn a Chastell Morlais, oedd mam yr holl Eglwysi o Flaengwrach i Benrhiwcalch, o Bontypridd i Merthyr Tydfil, ac o Gellionen i'r Glasfynydd. Bu fel Rebecca, nid yn fam i genedl, ond yn fam i genhedloedd enwadol. Allan o honi hi yr aeth y rhan amlaf o'r aelodau a ffurfiwyd yn Eglwys Drochyddol yn Hengoed, yn 1650. Hi fu mam Crynwyr y Quakers' Yard, yn gystal a Phresbyteriaid Aberdâr a Choedycymer. Maes ei phererindod hi yn nydd tywyll yr erlidiau yw llanerch gyntaf Ymneillduaeth yn Nghymru yn bresenol. Mwydodd y tir a'i dagrau, cysegrodd ef a gwaed ei phlant, gwystlodd fendith fythol arno a'i ffyddlondeb; ac os oes ambell i eglwys a'i hanes wedi ei ysgrifennu yn llawnach, nid oes yr un a chnwd ei llafur yn fwy toreithiog.'

[Gweler "Eglwysi Annibynol" Rees a Thomas, Cyfrol II.]

Pa fath Eglwys
Fyddai'n Eglwys ni,
Pe byddai'r aelodau
I gyd fel fi?

COLOFN "MAES LLAFUR 1919—1920."

Crynhodeb o gynnwys y bennod gyntaf o "*Life in Palestine.*"

(*a*) Y rhan uchaf (ogleddol) o'r wlad yw Galilea.

(*b*) Ei thair rhan : Galilea Uchaf, Galilea Isaf, a'r Dyffryn.

(*c*) Gwlad fynyddig, anial, yw Galilea Uchaf, yn awr yn gartref yr arth a'r ystlumod.

(*d*) Y mae Galilea Isaf yn rhannol fynyddig ac isel ; yn y rhan hon y mae dyffryn prydferth, ffrwythlawn Jezreel.

(*e*) Y Dyffryn yw y rhan y rhed yr Iorddonen trwyddo—o'i dechreu ym mynydd Hermon hyd gyffiniau Samaria.

(*f*) Yn amser Iesu yr oedd Galilea yn wlad boblog, gynhyrchiol ; a cherid ym mlaen drafnidiaeth fawr yn ei phrif ddinasoedd, megis Capernaum, &c.

GWERS V.—Y Temtiad. Darllener (1) Matt. 4 : 1—11 ; [(2) Marc 1 : 12, 13 ; (3) Luc 3 : 1—18].

1. Ar ol ei fedydd, dywedir i'r Iesu gilio i'r "anialwch," ac

2. Iddo aros yno ddeugain niwrnod a deugain nos, heb ddim, neu heb ond ychydig fwyd.

3. Dwedir iddo, ar derfyn yr amser hwn, gael ei demtio deirgwaith gan ddiafol neu Satan.

4. Y demtasiwn gyntaf oedd ceisio ganddo droi'r cerrig yn fara.

5. Ateb Iesu : "Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw o enau Duw."

6. Yn yr ail demtasiwn, dwedir i'r diafol osod Iesu ar binacl y deml, a cheisio ganddo i fwrw ei hun i lawr, a dangos felly fod Duw yn gofalu am dano.

7. Ateb Iesu : "Na themtia yr Arglwydd dy Dduw."

8. Yn olaf, dwedir i'r diafol gymeryd Iesu i ben mynydd uchel, a chynnyg iddo yr oll a welai, os y syrthiai i lawr a'i addoli ef.

9. "Ymaith Satan," meddai Iesu, "canys ysgrifenwyd, yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac efe yn unig a wasanaethi."

10. Ai stori, ynte hanes ? ni ellir dweyd. Efallai (a thebyg) fod peth yn stori a pheth yn hanes.

11. Beth ddysgir gan y stori? Fod Iesu yn agored i demtasiynau fel dynion eraill.

12. Dywedir ei fod "wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud a ninnau, eto heb bechod."

13. Beth yw pechod? Dyn yn rhoi i fyny i demtasiwn.

14. Gorchfygodd Iesu ei demtasiynau. Gallwn ninnau wneud yr un peth.

Nodyn.—Diafol a Satan: Ystyr y ddau air yw—achwynwr, cyhuddwr, gwrthwynebwr. Yn yr hen amserau, credai dynion mewn diafol neu Satan personol. I ni, nid person vw'r diafol (neu Satan) ond meddwl drwg yn y galon.

TRI YSGOLFEISTR ENWOG O'R UN ENW.

O bob llenyddiaeth, tybiwn nad oes yr un yn fwy dyddorol ac adeiladol yn mhob ystyr na llenyddiaeth fywgraffyddol. Yma gallwn ddewis ein cwmni, a phan fyddwn wedi blino arnynt gallwn eu troi ar y neilldu, heb achos tramgwydd i neb. Os na fydd y cwbl fel y dymunwn nid oes achos ymrafael ac ymryson, gallwn gau y llyfr ac yna bydd tawelwch mawr. Hyfryd yw'r cyfleusdra i ymgydnabyddu a dynion mwyaf a dynion gorau'r ddaear—dynion na chawn fynd yn agos atynt pan yn y cnawd. Gallwn ddysgu sut y maent wedi byw, pa gyfleusderau gawsant, pa mor bell y gwnaethant y gore o'u cyfleusderau. Nid yw yr hyn allwn ddweyd am y tri ysgolfeistr ond cipdrem byr ac amherffaith iawn o dri dyn a wnaethant waith rhagorol yn eu hoes.—S.N.S.

SAMUEL JONES, M.A. (1628—1697), BRYNLLYWARCH.

Yr oedd y gwr enwog hwn yn fab i John Roberts, Corwen, Meirionydd. Cafodd addysg dda. Aeth i Rydychen lle y dewiswyd ef yn Gymrawd, a bu yn athraw am flynyddau. Urddwyd ef i'r weinidogaeth yn ol y drefn henadurol. Rywbryd tua 1660 gwnaed ef yn weinidog plwyf Llangynwyd, ond yn 1662, trwy Ddeddf Unffurfiaeth, trowyd ef allan o'i fywoliaeth gyda'r *Ddwy Fil.*

Wedi ei droad allan treuliodd ei oes yn bennaf i gadw ysgol, a pharotodd lawer o bobl ifeinc i'r weinidogaeth. Pan ffurfiwyd y Bwrdd Presbyteraidd yn 1689, cafodd lawer o help sylweddol. Dylai Cymru gofio am yr help mae wedi ei gael gan y Bwrdd hwn o'r pryd hwnnw hyd heddyw.

Yn ysgol Samuel Jones y derbyniodd y rhan fwyaf o weinidogion Cymru eu haddysg o 1662 hyd 1697. Yn mysg y rhai gellir enwi James Owen, Philip Pugh, Daniel Philips, Rees Price, Samuel Price, cydweinidog Dr. Isaac Watts, a'i olynydd wedi hynny, Jenkin Jones, Llwynrhys. Bu mab un o'r Mansells o'r Margam yn yr ysgol am bum mlynedd.

Yr oedd ar delerau cyfeillgar â rhai o'r awdurdodau eglwysig, a

chafodd lawer cymhelliad gan yr esgob i ymuno ; ond nid oedd dim yn tycio, ymneillduwr oedd ef o argyhoeddiad, a pharhaodd yn ymneillduwr hyd y diwedd. Eto fe ddioddefodd lawer trwy erledigaeth a bu yn y carchar fwy nag unwaith.

Yr oedd yn fardd, ac efe oedd llywydd Eisteddfod y Bewpyr yn 1681. Dywedir ei fod yn bregethwr galluog, ond yr oedd gofal ysgol yn rhwystr iddo fynd allan o'i gylch ei hun.

Nid oedd un dyn mwy boneddigaidd, didramgwydd, a defnyddiol yn ei oes na Samuel Jones, ond oherei fod yn ymneillduwr yr oedd yn rhaid ei erlid gan aelodau eglwys wlad ei oes.

Mae wedi cael ei alw yn "Friend of Dr. Robert South," ac mae llythyr ar glawr hyd heddyw oddiwrth Dr. South at "Mr. Samuel Jones, at Codrecken, in Glamorganshire." (Eglwysi Annibynol, Cyfrol II.; Freedom after Ejection. A.G.)

Samuel Jones (1680—1719), Tewkesbury.

Y dyb gyffredin yw i Samuel Jones gael ei eni yn Mhensylvania, ond nid yw hynny yn gywir. Mwy tebyg iddo gael ei eni yn rhywle yn Nghymru. Bu ei dad, Malachi Jones, yn weinidog yn y rhan Gymreig—Cymreig y pryd hwnnw—o Sir Henffordd. Ebrill 13, 1696, derbyniodd £3 o'r "Congregational Fund," ac yr oedd yn Sir Henffordd ar y pryd. Cyn diwedd yr un flwyddyn (1696), ymfudodd i'r America ac ymsefydlodd yn Mhensylvania, lle y bu yn weinidog am flynyddau, a'r lle y bu farw yn 1728. Bu ei weddw, mam gwrthrych y llinellau hyn, byw hyd 1736.

Derbyniodd Samuel Jones ei addysg golegawl yn Abergafenni, o dan Roger Griffith, ac wedi hynny yn Holland o dan Frederic Spanheim a James Perigonius. Wedi gorffen ei efrydiaethau yno, daeth i Brydain, ac agorodd ysgol yn Nghaerloyw yn 1711, yr hon yn mhen ychydig amser a ddaeth mor flodeuog fel yr oedd bechgyn yn cael eu hanfon iddi o bellderau'r deyrnas. Dyry Thomas Tasker, un o'r ysgolheigion, gipolwg dyddorol ar yr ysgol ac ar y cynllun addysg yno, mewn llythyr a ddanfonodd at Dr. Isaac Watts. Dyddiad y llythyr yw "Nov. 18, 1711." Rhydd y ganmoliaeth uwchaf posibl i'r athraw ac i'r ysgol. Yr oedd yr ysgolheigion yn gorfod codi bob bore am bump o'r gloch, ac yn gorfod siarad bob amser yn yr iaith Ladin, oddigerth pan fyddent gyda'r teulu. Cyfeiria Dr. Hippis at Mr. Jones fel dyn o alluoedd a gwybodaeth pell hwnt i'r cyffredin. Yn 1721, cefnodd Secker ar ei anghydffurfiaeth a throdd at yr Eglwys ; yna fe esgynodd o ris i ris nes dod yn archesgob Caergaint. Fel archesgob cafodd yr anrhydedd o fedyddio, priodi, a choroni'r brenin George III. Un arall a drodd yn offeiriad ar ol cyrraedd addfedrwydd oedran oedd Joseph Butler, esgob Durham wedi hynny, ac awdwr yr "Analogy of Natural and Revealed Religion," llyfr sydd mewn bri hyd heddyw. Disgyblion eraill i Mr. Jones oedd Jeremiah Jones, ei nai dybiaf, ac awdwr llyfr pwysig ar y Testament Newydd mewn tair cyfrol ; Dr. Samuel Chandler, Vavasor Griffiths, Dr. Andrew Gifford, llyfrgellydd y British Museum, ynghyda lluaws eraill nad oes modd eu henwi i gyd.

Yn 1712, oherwydd cyfyngder ac anghyfleusdra, symudodd Mr. Jones i Tewkesbury, lle'r aeth yr ysgol ar gynnydd mewn dylanwad a pharch yn barhaus.

Mae'r bywgraffwyr mor bell ag y medrent wedi ceisio anwybyddu Mr. Jones—megys bywgraffydd Seckor a bywgraffydd Ponther. Dyna'r rheswm y gwyddis cyn lleied am fanylion personol ei hanes ; ond y mae llwyddiant y disgyblion yn brawf digonol o fedrusrwydd yr athraw. Bu farw Mr. Jones yn 1719 neu 1720. (Monthly Repository, 1809 ; Freedom after Ejection. A.G.)

SAMUEL JONES (1700?—68?), PENTWYN.

Tybir ei fod yn enedigol o blwyf Llanedi, ac mae'r un gwr oedd a Samuel Jones, Capel Seion. Addysgwyd ef yn Athrofa Caerfyrddin, yn rhanol o dan William Evans (1708—18), ac yn rhanol o dan Thomas Perrot (1719—33). Fel y rhan fwyaf o fyfyrwyr Perrot ni ystyrid ef yn iach yn y ffydd. Prif heresi'r oes honno oedd Arminiaeth. Bu am flynyddau yn cadw ysgol flodeuog yn Mhenbryn. Bu yr enwog Dr. Richard Price, o Lundain; Thomas Morgan, Henllan; Owen Rees, gweinidog cyntaf Hen Dy Cwrdd, Aberdar, tad Josiah Rees, Gellionen; Noah Jones, ac eraill a wnaethant enw iddynt eu hunain yn derbyn eu haddysg yn yr ysgol hon. Yr oedd y gair fod Samuel Jones yn gogwyddo at Arminiaeth, ac oherwydd hynny fod Edmund Jones, Pontypool, yn anfoddlon i Thomas Morgan, wedi hynny o Henllan, fynd yno i'r ysgol; ond gan nad beth am ei Arminiaeth, rhydd Mr. Morgan y dystiolaeth uwchaf i gymeriad ei hen athraw. Tybia Dr. Rees fod rhyw sail i'r dybiaeth o'i heresi am iddo draddodi'r Siars ar urddiad David Lloyd yn Llwynrhydowen, yn 1745. Fel mae'n hyspys, David Lloyd oedd olynydd Jenkin Jones, yr hwn a fu'n brif achos y berw Arminaidd yn 1729. Ni wn i ddim beth feddylia'r darllenydd am gysylltiad achos ac effaith yn y fan hon. Nid yw y *logic* yn ymddangos yn gryf.

Yn 1759, cafodd y Parch. Lewis Rees, tad yr enwog Dr. Abraham Rees, alwad i fod yn gyd-weinidog i Mr. Samuel Jones, yn Mynyddbach. Gellir meddwl oddiwrth hynny yr ystyrid yr heresi yn un pur ddiniwed. Cydnebydd Dr. Rees ei fod yn ysgolhaig gwych, yn bregethwr rhagorol, ond nid oedd yn ddyn cyhoeddus iawn. Wrth gwrs i Dr. Rees, Calfiniaeth oedd y ffydd gadwedigol. (Eglwysi Annibynol, Cyfrol II., t. 19.)

PRIODASAU.

RHAGFYR 6, yng Nghapelygroes, gan y Parch. D. Evans, Gweinidog y lle, a cher bron Mr. Enoch Davies, Cofrestrydd, John Jenkins, Ffrwdywhiad, a Lizzie Evans, Pantyrhwch. Llwyddiant a dedwyddwch a'u dilyno.

RHAGFAR 20, yng Nghapel yr Alltwen, o flaen y Parch. W. J. Rees a'r Cofrestrydd, Mr. Noah L. Davies, priodwyd Mr. Arthur Williams, Trebanos, a Miss Mary Lewis, Alltwen.

IONAWR 7, yn Nghapel Parkyvelvet, Caerfyrddin, unwyd mewn glân briodas gan yr Athro Philemon Moore, yngwydd y Cofrestrydd, y Parch. D. Cellan Evans, Ansdell, Swydd Lancaster (mab Mr. a Mrs. J. Evans, Tymawr, Cellan), a Miss Mary Barett Evans, merch Mrs. Evans, Gwynfe, Caerfyrddin, a chwaer y Parch. E. T. Evans, Highland Place, Aberdar. Gwened nef ei bendithion arnynt.

IONAWR 9fed, yn Alltyplacca, gan y Parch. T. Oswald Williams, B.A., Llanbedr (brawd y priodfab), yn cael

ei gynorthwyo gan y Parch. Lewis Williams, y Gweinidog, Mr. Meredith Ll. Gwarnant Williams, Cynghorwr Sirol, Penralltnewydd, Llanwenog, a Mrs. H. Jones, Brooklands, Llanwenog, gynt o Vale of Tivy, Llanybyther.

MARWGOFION.

RHAGFYR 21, ar ol cystudd hir, bu farw Jane, anwyl ferch Mary Jenkins, Troedrhiw Capeli, a'r diweddar Richard Jenkins, Mount Pleasant (y pryd hynny), ger Cribyn, yn 24ain oed. Bu yn dioddef am flynyddau oddiwrth y darfodedigaeth; a bu amryw droion dan driniaeth yn y Sanatorium; ond er pob ymdrech methodd gael adferiad. Gadawodd fam, un chwaer, ac amryw frodyr, a pherthynasau agos ereill, mewn galar ar ei hol. Yr oedd yn ferch ieuanc a hoffid yn fawr gan gylch ei chydnabyddiaeth: a chydymdeimlir a'r fam a'r gweddill o'r teulu yn eu galar ar ei hol. Dydd Gwener canlynol hebryngwyd ei gweddillion i ymyl eiddo ei thad ym mynwent Ystrad gan nifer luosog o fobl. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, Cribyn; a gwasanaethwyd yn Ystrad gan y Ficer.

RHAGFYR 25, yn bedwar diwrnod oed, Mary Margaretta, baban Mr. a Mrs. Rees Thomas, Castell-du, Llanwnen. Claddwyd yn mynwent Eglwys Llanwenog. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, Alltyblacca, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. Daniel Thomas, Gelly, Llanybyther.

RHAGFYR 29, David Morgan, Blaenllain, Llanarth, gynt o Moyddin Fach, yn 66 mlwydd oed. Cafodd ei fendithio ag iechyd da hyd ychydig amser cyn ei farwolaeth. Claddwyd yr Iau canlynol yn Capelybryn, ac yr oedd yr angladd yn un lluosog. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. J. Davies, ac E. Glyn Edwards. Gadawodd briod, pedwar mab, a dwy ferch i alaru ar ei ol.

RHAGFYR 30, yn 74 mlwydd oed, Mrs. Eleanor Evans, priod Mr. John Evans, Bush House, Llanybyther. Yr oedd yr ymadawedig yn analluog i fyned oddiamgylch er's rhai blynyddau, ond yr oedd yn ddiboen hyd yn ddiweddar. Er wedi cael ei chyfyngu i'w thŷ er's hir amser, nid oedd hyny wedi tristhau ei hysbryd; cawsem ein synu gan mor siriol ydoedd, a theimlem ei bod yn lloni pawb o'i chwmpas. Meddai ar dymher addfwyn, meddwl doeth, ac ewyllys dda: ac yr oedd iddi barch mawr yn mhlith ei chydnabod. Yr oedd yn aelod o eglwys Alltyblacca, ond nid oedd wedi gallu bod yn y gwasanaeth er's amryw flynyddau. Claddwyd yn Aberduar, yr angladd yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. D. C. Griffiths, Aberduar; J. Davies, Tancoed; ac L. Williams, Alltyblacca. Gadawodd briod, un mab, un ferch, ynghyd âg ŵyr bychan i alaru ar ei hol. Amddiffyn y nef fyddo dros y priod a'r plant.

IONAWR 5, ar ol cystudd byr, Ann Davies, Gwarcwmmarch, Llandyssul, yn 83 oed. Treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn Tyrhys, ar dir Castellhywel, ac wrth yr enw Nanny,

Tyrhys, yr adnabyddid hi yn gyffredin. Cyfrifid hi yn fenyw weithgar, gryno a gonest yn ei gwaith, ac yn gymmydoges gymwynasgar. Gadawodd lawer o berthynasau a chyfeillion mewn hiraeth ar ei hol. Claddwyd y Mercher canlynol yn medd ei chwaer yn mynwent Llwynrhydowen, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

IONAWR 5, yn 78 oed, bu farw Hannah Williams, Lôn, ger Alltyplaca, ar ol cystudd caled o tua phythefnos o amser. Nid oedd ei hiechyd wedi bod yn foddhaol er's blynyddau; ond parhaodd i fyned oddiamgylch hyd ei chystudd olaf. Bu yn byw am lawer o flynyddau yn Tynewydd, Ffynonfair; ond ar farwolaeth ei phriod ychydig flynyddau yn ol symudodd i'r lle uchod. Yr oedd hi, fel ei phriod, yn aelodau yng Nghapelygroes; a chyhyd ag y parhaodd ei nerth a'i gallu bu yn neilltuol o ffyddlon—nid oedd ei lle byth yn wag; a chredaf, ar bwys fy adnabyddiaeth agos o honi, ei bod wedi ymdrechu byw i fyny i'w phroffes. Coded ereill i lanw ei lle. Gadawodd nifer liosog o blant mewn galar ar ei hol, yng nghyd a nifer liosog o wyrion a pherthynasau eraill. Claddwyd ei gweddillion yng Nghapelygroes dydd Gwener canlynol, pryd y talwyd iddi y gymwynas olaf gan nifer fawr o gyfeillion ac adnabyddiaeth. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle; a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. Oswald Williams, B.A., a Glyn Edwards (B.)

JANUARY 7, Elvira James, the eldest daughter of Mr. and Mrs. James, of Milford House, Cwmanne, Lampeter, passed away at the early age of 11 summers, after a very short illness. She was a favourite with all and was of a sweet and winning disposition. She was interred at the Brondeifi Burial Ground, for she was a most faithful attendant at the Sunday School and the Band of Hope. Rev. D. R. Davies, M.A., Curate, officiated at the house, and the Rev. T O. Williams, B.A., preached and officiated at the graveside. She leaves a father and mother and young Phyllis to mourn her loss. May strength be given them to bear the cross, in faith knowing that "Every little child is known by his doings, whether they be pure and whether they be just."

IONAWR 11, yn 59 mlwydd oed, Mr. J. Thomas Lewis, Penybont, Llanybyther, Prifathraw Ysgol y Cynghor, Pencarreg. Cafodd gystudd maith a phoenus. Brodor ydoedd o bentref Cwmbach, plwyf Llanwinio, Sir Gaerfyrddin. Yr oedd ei dad yn flaenor gyda'r Methodistiaid, a chyda'r enwad hwnw y cafodd yntau ei ddwyn i fyny; ond drwy gredu gyda Dr. Martineau, fod sedd awdurdod dyn nid yn nghyffes ffydd un enwad eithr yn marn dyn ei hun, efe a fethodd cydolygu ag athrawiaeth y Methodistiaid. Gwelodd mai yr enwad Undodaidd oedd yn coleddu yr un syniadau âg ef, a phan y daeth i Pencarreg, ugain mlynedd yn ol, ymunodd a'r eglwys yn Alltyplacca. Yn mhen ychydig flynyddau wedi ei ddyfodiad i'r lle ymbriododd a Miss Sarah Jones, merch y diweddar Thomas a Margaret Jones, Rhandir, ger Alltyplacca. Yr oedd o duedd ddarllengar, ac yn meddu ar wybodaeth helaeth. Yr oedd ei allu fel ysgolfeistr i gyfranu addysg, ynghyd a'i wybodaeth eang, yn gymhwysder neillduol ynddo fel athraw Ysgol Sul, a rhoddodd wasanaeth gwerthfawr iawn i'r Ysgol Sul yn y lle am flynyddau. Pedair blynedd yn ol penodwyd ef yn ddiacon yr eglwys. Claddwyd yn Alltyplacca. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. J. Davies, T. Oswald Williams, B.A., D. C. Griffiths, Aberduar, a E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd. Rhoddwyd *wreaths* prydferth ar ei fedd gan eglwys Alltyplacca ac ysgolheigion ysgol Pencarreg. Yr oedd yr oll o'r ysgolheigion yn yr angladd hefyd. Gadawodd briod, naw o blant, un brawd, a thair chwaer mewn galar mawr ar ei ol. Amddiffyn y nef

fyddo dros y weddw a'r plant.

IONAWR 15, bu farw Evan Evans, Fferm Sychbant, yn y 80fed flwydd o'i oedran, ar ol cystudd trwm o amryw fisoedd. Mwynhaodd iechyd da drwy ei oes, ond yr oedd methiantau henaint wedi dechreu ei amharu er's rhai blynyddau, gan ei analluogi i ddilyn ei alwedigaeth; bu ei wanychiad, er hynny, yn un graddol, ac ychydig fisoedd yn ol cyfyngwyd ef i'w wely, o'r hwn ni allodd godi mwy. Perthynai i deulu adnabyddus iawn yng nghymydogaeth Cribyn—yr oedd yn fab i'r diweddar Thomas Evans, Rhydcaisfawr, ger Cribyn; ac yr oedd cylch ei adnabyddiaeth yntau yn un eang, a pherchid ef yn fawr ar gyfrif aml linellau dymunol ei gymeriad. Bu drwy ei oes hir yn weithiwr caled a didwyll, yn ddyn sobr, craffus ei feddwl, a chywir ei rodiad. Ymaelododd yng Nghapelygroes yn weddol gynnar yn ei fywyd; ac er fod pellter ffordd ac amgylchiadau ereill wedi ei analluogi i fynychu'r addoliad er's blynyddau, eto cadwodd ei ddiddordeb yn yr achos yn fyw hyd y diwedd. Gadawodd mewn galar ar ei ol ddwy ferch, dau fab, dwy chwaer a phedwar brawd, nifer liosog o wyrion, a pherthynasau agos ereill. Drwy flynyddau ei wanychiad gweiniwyd arno yn dyner a gofalus gan ei ferch, Martha, a'i fab, Dafydd, y rhai oeddynt yn byw gydag ef yn y Sychpant. Iddynt hwy y bydd y golled fwyaf ar ei ol, a diau gwelant yr aelwyd yn wag iawn hebddo. Ond y mae cymhorth a chysur mewn amgylchiadau o'r fath hyn yn y ffydd fod y cwbl er daioni. Dydd Llun canlynol hebryngwyd ei weddillion i gladdfa Capelygroes gan dyrfa liosog iawn. Pregethwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parch. D. Evans, Capelygroes, a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. L. Williams, Glyn Edwards (B), Conwil Evans, ac Oswald Williams, B.A.

MANION AC HANESION.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—Nos Iau, Ionawr 1af, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yr eglwys, anrhegwyd y plant am eu ffyddlondeb yn yr Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn flaenorol. Llywyddwyd y cyfarfod gan yr Arolygydd, Mr. Taliesin Griffiths. Yr oedd pedwar o'r plant wedi mynychu yr Ysgol Sul yn ddifwlch yn ystod y flwyddyn. Anrhegwyd Charlie Harrison a Medal Arian. Y mae'r bachgen hwn yn esiampl o ffyddlondeb i lawer yn ein enwad. cafodd y fedal am dair blynnedd o fynychiadau difwlch. Gwyn fyd na allasem gofnodi am ddwsin neu ddau o ffyddloniaid tebyg i'r bachgen hwn. Hawdd fyddai gweld gwell grân ar ein Hysgolion Sul a'n heglwysi hefyd. Brysied y dydd pan fyddo ffyddlondeb wedi meddianu aelodau ein heglwysi, canys blinder mawr ydyw gweled cymaint o seddau gweigion yn ein capelau. Trosglwyddwyd y llyfrau ar ran yr ysgol i'r plant gan ein parchus weinidog, y Parch. E. R. Dennis, gydag ychydig o sylwadau pwrpasol iawn i'r plant a'r gynulleidfa. Cafwyd cyfarfod dyddorol iawn yn mhob ystyr.

LLWYNRHYDOWEN A BWLCHYFADFA.—Cynhaliwyd Cyfarfod Cystadleuol yn hen Gapel y Llwyn, nos Nadolig, a throdd allan yn llwyddiannus iawn.——Ionawr 14, cynhaliwyd Cyngherdd yn Bwlchyfadfa, o

dan lywyddiaeth y Parch. T. Lloyd, Rheithor Capel Cynon a Talgarreg. Cafwyd unawdau, deuawdau, &c., gan Mr. L. Terwyn Davies, Llanbedr, a'i gyfeillion, ac adroddiadau gan Miss Hannah M. Jones, Crugyreryr. Mwynhawyd y canu a'r adrodd yn fawr.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yn y Graig, nos Nadolig, cynhaliwyd Cyfarfod Adloniadol hwylus a byw. Dyddorwyd y dyrfa fawr gydag amrywiaeth mawr, a thoraeth o bethau llonn a difrifol, a'r oll yn arwain y meddwl i gyfeiriad adeiladol. Cyfeiliwyd gan Mri. Isaac E. Hopkin, ac H. H. Morgan. Y Parch. D. G. Rees oedd y cadeirydd.——Pleser gennym ddweud fod yr argoelion am drysorfa dda tuag at chwyddo a hwylysu mudiad yr *Organ* fwriedir ei adeiladu yn y Graig. Penodwyd pwyllgor o tua thri-ar-hugain at y gwaith o gael modd i ddechreu talu am yr *Organ*, ac y mae bron yr oll wedi rhoddi addewidion sylweddol. Mae eraill, eto heb addaw, a gobeithio nad hir fyddant cyn i ni gael y fraint o glywed swn yr hatlingau yn ymdaith tua'r *Bank*. Mae y gwaith yn golygu llafur a thraul mawr, ond pwy ddwed na fydd yn foddhad mawr i feddwl, ysbryd, a theimlad y gynnulleidfa? Hai, ati, o ddifrif, a daw y gwaith i ben.

YN ei lyfr diweddaf, "*Conscience and Christ*," dywed y dysgedig Ddeon Carlisle (Dr. Hastings Rashdall) yn eglur fel y canlyn: "Y mae myfyrdod beirniadol o'r Efengylau yn ei gwneud yn hollol sicr, na wnaeth Iesu Grist erioed hawlio i fod yn Dduw." Eto cyhoeddwyd anathema uwchben yr Undodiaid erioed am feiddio dweyd yr un peth. Yn wir, mae'r byd yn symud.

Y PARCH. JOHN WILLIAMS (1750—1807).—Mewn llythyr ataf dyddiedig Mai 6, 1910, mae'r diweddar Barch. J. Spinther James yn ysgrifenu fel hyn:—"A allech chwi, heb lawer o drafferth, roi goleuni ar yr hyn a ddywed Gwilym Lleyn—Llyfr y Cymry, t. 641—am John Williams, awdwr "Caniadau Preswylwyr y Graig," sef iddo ar ol 1791 fod mewn rhyw fath o gymundeb a'r Undodiaid yn Aberdar, ac iddo ymlygru yn ffiaidd yn ei ymarweddiad, ac felly, hyd y gwyddis, y terfynodd ei oes.

Ai cywir y gosodiad uchod am ei undeb a'r Undodiaid yn Aberdar? Mae gennyf brawfion mai nid cywir yr haeriad "iddo ymlygru yn ffiaidd."

Yn 1797 di-aelodwyd Mr. Williams gan y Cwrdd Cwarter am ei fod yn Arminaidd yn ei farn; ond glynodd y rhan fwyaf o'r eglwys wrtho, a chadwasant feddiant o'r Hen Dy Cwrdd (yn Abertawe), gan alw eu hunain yn "Fedyddwyr Cyffredinol." Hyd y gwn i hon oedd yr eglwys gyntaf o'r enw yn Nghymru. Parhaodd John Williams yn weinidog iddi hyd ei farwolaeth dan ergyd o'r parlys yn 1807.

Adwaenid John Williams yn more ei ddyddiau fel Shon Singer. Ganwyd ef yn Lleyn, Eifionydd, tua 1750. Cadwai ysgol a dysgai gerddoriaeth. Dilynai gynllun y Madam Bevan, ac elai o fan i fan i gyfrannu addysg. Cyhoeddodd rai pethau ar gerddoriaeth a ystyrid o nodwedd uchel ar y pryd. Yn 1784 ymunodd a'r Bedyddwyr, a dechreuodd bregethu. Yn 1788 cafodd ei urddo, a'r flwyddyn ganlynol cyhoeddodd lyfr bychan o emynau. Yn 1792 cawn ef yn weinidog yn Abertawe, ac yn parhau i ddysgu cerddoriaeth, ac yn teithio o fan i fan i ddilyn ei alwedigaeth. Nid yw llyfrau eglwys yr Hen Dy Cwrdd, Aberdar, ddim yn cynnwys yr un cofnod am ei enw. Wrth gwrs, mae yn eithaf posibl iddo fod yn dysgu cerddoriaeth i rai o'r aelodau. Yr wyf wedi gofyn i mi fy hunan lawer gwaith yn mha le y dysgodd Thomas a John Rees, Llwynmoch, gerddoriaeth? Yr oeddynt ill dau yn enwog fel cerddorion. Unwaith yn unig yr wyf yn cofio gweld enw John Williams yn mhlith y lluaws llythyrau yn fy meddiant—a hyny mewn llythyr o eiddo'r Parch. Josiah Rees, Gellionen. Carwn wybod rhagor am dano.—R. J. J.

Dywedir mai Gweddi'r Arglwydd fel y mae'n canlyn yw'r enghraifft gyntaf o Gymraeg argraffedig, 1555: "Eyn taad rhwn wyt yn y nefoedd, santeiddier yr henw tau; Deued y dyrnas dau; Gwneler dy wyllys, ar y ddayar megys yn y nefi. Eyn bara beunyddawl dyro inni heddiw. A maddeu ynny eyn deledion; megis ag i maddeuwn i'n deledwyr ninau. Ag na thowys ni in brofedigaeth, namyn gwared ni rhag drwg. Amen."

MERTHYRON TY'R GWEINIDOG.

Tynnai wrth y cwrlid beunydd gyda llaw aflonydd flin,
Arwydd fod y Bugail druan yn prysuro at y ffin,—
Ffin oer angeu! heb ond morwyn gyflog yno i'w wylio ef,
Er y teimlai fod un annwyl wenai arno o entrych Nef,
Cyn ei marw dywedasai, gan roi trem o'i gwely llwm:
"Bydd y tŷ, f'anwylyd, mwyach, O mor wâg, a'th faich mor drwm!
Troiog iawn a fu ein siwrne, ie, caled iawn a maith,
Ac er mwyn yr Iesu'n unig yr wynebais boen y daith.
Y mae'n bara a'n dwfr inni 'n rhan yn ol addewid Duw,
Ac fe synna rhai fod angen rhagor arnom er mwyn byw.
Pe bae'r tâl yn ol y llafur, tra gwahanol fuasai'n gwedd
N'ad i'r bobl a'm newynodd daenu eu blodau ar fy medd."
Yn ei glust o hyd adseiniai 'r geiriau fel drwy hanner-hun,
Pan ddaeth y blaenoriaid yno'n sobr ac araf un 'rol un.
Uwch ei wely'r hynaf blygodd a chan ocheneidio'n wan,
"Daethom yma i ddiolch ichwi, ac i roi ffarwel ar ran
Y gyn'lleidfa," meddai, "tybed, a oes gennych gyngor bach
I'w drosglwyddo, gair a bery ar ol ichwi ganu'n iach?"
Yna gyda gwên dosturiol a gweddigar, eb efe—
"Oes, mae gennyf gyngor parthed y neb ddaw i lanw'm lle,
Y pregethau hirion, olion oes na ddychwel ydynt hwy,
'Parcher hwy am eu gweithredoedd' a fydd yr arwyddair mwy.
Yn eich mysg fe hir lafuriais, gan ddwyn rhywrai at y Groes,
Gan fugeilio eich eneidiau'n ddiwahaniaeth drwy fy oes,
Gwyliais un ar ffyrdd trugaredd yn mynd drwy'ch cyfoethog dre'
Na bu neb o'i gradd a'i diwyg yn fwy llymrig yn y lle,
Cyfaddefwch iddi weithio drosoch, a'i haberthu ei hun:
Hawliech ddau i'ch gwasanaethu, er na thalech chwi ond un.
Tra mi'n rhynnu yn fy myfyrgell, casglech chwithau gyfoeth byd,
Gan roi tâl am waith y Nefoedd llai nag am ysgubo'r 'stryd.
Pan ofynnais am ychwaneg—fe'ch tarawyd chwi yn syn
Fod gweinidog am wneud elw. Frodyr, onid gwir yw hyn?
Os yw'ch parch yn eich llogellau, pan am gael olynydd im',
Rhoddwch angel yn y pwlpud, ni bydd hwnnw'n bwyta dim."
Yna'r Bugail gydag amnaid a'u gollyngodd; a'i law flin
Wrth y cwrlid dynnai eto, tra mud syllai dros y ffin.

SARNICOL.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

LINDSEY PRESS PUBLICATIONS.

The Idealism of Jesus. By Sir Henry Jones. Preface by Rev. L. Jenkins Jones. Crown 8vo, 62 pp., 1s. net, postage 1½d.

Pauline Meditations. By James Drummond, M.A., LL.D., Litt.D. With Memorial Introduction by Edith Drummond and Professor G. Dawes Hicks. Crown 8vo, lxii+312 pp., 7s. 6d. net, postage 6d. Photogravure Portrait.

The Way of Life. New Testament Studies. By James Drummond, LL,D., Litt.D. Vol. I. The Parables of Jesus. Vol. II. The Lord's Prayer and the Teaching of Jesus. Crown 8vo, cloth, 2 vols., 8s. net, postage 6d.

The Spikenard and other Sermons. By Stopford A. Brooke, M.A., LL.D. With Introduction by Rev. J. H. Weatherall, M.A. Crown 8vo, 138 pp., 3s. 6d. net, postage 3d.

Labour and Religion. By Richard Lee, M.A. An Appeal to Labour on behalf of a Free and Progressive Religious Faith. Pamphlet 24 pp., 2d., postage ½d.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Postage is saved by ordering through a Bookseller.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £34,428,948. Paid up Capital .. £7,172,697 10s.

Reserve Fund .. £7,172,697 10s.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1918.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz:—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,869,079 Shares of £12 each ..	7,172,697	10	0
,, Reserve Fund	7,172,697	10	0
,, Dividend payable on 1st February, 1919	451,879	18	10
,, Balance of Profit and Loss Account as below	675,097	14	7
	15,472,372	13	5
,, Current, Deposit & other Accounts	334,898,435	12	6
,, Acceptances on account of Customers	13,145,849	2	11

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £8,000,000) and Cash at Bank of England	68,756,371	2	5
,, Cheques on other Banks *in transitu*	2,001,486	12	7
,, Money at Call and at Short Notice	65,809,169	12	4
,, Investments:—			
War Loans, at cost (of which £432,979 15s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..	57,463,594	19	3
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures	468,383	12	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..	1,112,725	19	8
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds	1,410,465	18	10
Sundry Investment	1,145,481	1	6
,, Bills of Exchange	39,249,296	3	2
	232,416,975	1	9
,, Advances on Current and other Accounts ..	99,213,614	15	6
,, Advances on War Loans	14,218,201	2	1
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..	13,145,849	2	11
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..	3,762,127	6	7
,, Belfast Bank Shares:—			
50,000 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid			
150,000 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid			
Cost £1,237,500 0 0			
Less part Premium on Shares issued .. 477,810 0 0			
	759,690	0	0
	£363,516,657	8	10

YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 3] MAWRTH, 1920 [PRIS 3c.

CYNHWYSIAD.

AR ADEN FFYDD.
ODDIAR Y TWR.
LLYTHYR O FERTHYR.
LOCUSTIAID.
Y FAIR FRAN DDU.
SYRTHIO I GODI.
COLOFN "MAES LLAFUR."
PRIODAS. MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Dantonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goheb aethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

"THE TRAINING OF MIND AND WILL"

By W. Tudor Jones, M.A., Ph.D.

CONTENTS:

Foreword by Dr. Alex Hill.
Chapter I. Introduction.
II. Need of Ability.
III. Knowing our own Mind.
IV. Observation, Attention, Concentration, Will-power, Memory.
V. The Three Levels of Mind—Perception, Association, and Reflection.
VI. The Four Sides of Life and their Cultivation—(*a*) The Civic Side; (*b*) The Vocational Side; (*c*) The Cultural Side; (*d*) The Religious Side.

Price, 2/6. - - - Postage, 3d.

Obtainable from—

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.